

**Memorandwm Esboniadol ar gyfer Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu
Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol)
(Rhif 2) 2021**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Adran Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r Rheoliadau uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 2021.

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language
11 Awst 2021

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Diwygiadau Canlyniadol) (Rhif 2) 2021 ("Rheoliadau 2021") yn diwygio ac yn dirymu is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Ni nodwyd unrhyw faterion penodol.
- 2.2 Mae diwygiadau pellach i is-ddeddfwriaeth arall yn debygol o gael eu gwneud o ganlyniad i Ddeddf 2018

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae Rheoliadau 2021 yn cael eu gwneud o dan adrannau 97(1) a (2) a 98(2) o Ddeddf 2018. Mae adran 97 yn rhoi pŵer rheoleiddio i Weinidogion Cymru wneud mathau canlyniadol a mathau eraill o ddarpariaeth y maent o'r farn eu bod yn angenrheidiol neu'n hwylus o ganlyniad i Ddeddf 2018. Caiff rheoliadau o'r fath ddiwygio neu ddirymu unrhyw ddeddfiad. Yn unol ag adran 98(4) o Ddeddf 2018, mae Rheoliadau 2021 yn ddarostyngedig i weithdrefn negyddol y Senedd.
- 3.2 Mae Rhan 2 o Ddeddf 2018 yn sefydlu'r system statudol newydd ar gyfer diwallu anghenion dysgu ychwanegol plant a phobl ifanc ("y system ADY"). Ar gyfer plant, mae'n disodli'r system y darperir ar ei gyfer ym Mhennod 1 o Ran 4 o Ddeddf Addysg 1996 ("y system AAA"). Bydd y system ADY yn cael ei gweithredu dros gyfnod sy'n dechrau ar 1 Medi 2021, ac yn ystod y cyfnod hwnnw, bydd y system AAA yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â rhai plant.
- 3.3 Mae Gorchymyn Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Cychwyn Rhif 2) 2021 (O.S. 2021/373 (Cy. 116) (C. 12)), yn cychwyn y system ADY ar 1 Medi 2021 mewn perthynas â phersonau penodol. Yn ogystal, mae erthygl 8 o'r Gorchymyn hwnnw'n darparu i ddarpariaethau canlynol Deddf 2018 ddod i rym yn llawn ar 1 Medi 2021:
 - a. adran 57, sy'n diddymu cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru drwy gyfyngu ar roi adran 342 o Ddeddf Addysg 1996 ar waith yn Lloegr;
 - b. adran 58, sy'n diddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 ar gymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas ar gyfer derbyn plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Diben Rheoliadau 2021 yw gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth yr ystyrir ei bod yn angenrheidiol neu'n hwylus i sicrhau bod darpariaeth briodol yng ngoleuni'r ffaith bod y system ADY yn dod i rym mewn perthynas â rhai plant o 1 Medi 2021.
- 4.2 Diben Rheoliadau 2021 hefyd yw dirymu darpariaethau is-ddeddfwriaeth a fyddai fel arall yn dod i ben neu'n ddiangen yng ngoleuni'r ffaith bod adrannau 57 a 58 o Ddeddf 2018 yn dod i rym ar 1 Medi 2021. Ystyrir ei bod yn hwylus i'r darpariaethau hynny gael eu dirymu, er mwyn helpu i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch.
- 4.3 Daw Rheoliadau 2021 i rym ar 1 Medi 2021 i gyd-fynd â'r system ADY sy'n dechrau dod i rym.
- 4.4 Ceir crynodeb byr o effaith y diwygiadau isod o dan deitl pob rheoliad.

Rheoliadau Ysgolion Newydd (Derbyniadau) (Cymru) 2006

- 4.5 Caiff yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn ei diwygio fel bod adran 48(1) i (5) o Ddeddf 2018 yn gymwys mewn perthynas ag ysgolion newydd gan nodi'r addasiadau yn yr Atodlen honno. Yr effaith yw y gellir enwi ysgol newydd o dan adran 48 yng nghynllun datblygu unigol plentyn. A bydd yn ofynnol i'r sawl sy'n gyfrifol am dderbyniadau dderbyn plentyn, yn yr un modd ag y byddai'n digwydd pe bai ysgol sefydledig yn cael ei henwi.

Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010

- 4.6 Mae'r diwygiad i'r Gorchymyn hwn yn dileu'r cyfeiriad (fel rhan o'r diffiniad o "school" at ddibenion yr erthygl honno) at ysgol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 342 o Ddeddf Addysg 1996. Y rheswm am hyn yw bod adran 57 o Ddeddf 2018 yn diddymu ysgolion o'r fath (er nad oes ysgolion o'r fath ar hyn o bryd).

Rheoliadau Derbyniadau Ysgol (Meintiau Dosbarthiadau Babanod) (Cymru) 2013

- 4.7 Mae'r Rheoliadau hyn yn ymdrin â'r terfyn ar faint dosbarthiadau ar gyfer dosbarthiadau babanod mewn ysgolion a gynhelir. Mae diffiniad o'r term "suitable education" yn cael ei ddiwygio i ystyried y system ADY. Mae Rheoliadau 2021 hefyd yn diwygio darpariaethau ar gyfer plant nad ydynt yn cyfrif tuag at y terfyn ("excepted pupils"). Yr effaith yw y gall plentyn sy'n dod o dan y naill ddisgrifiad neu'r llall fod (yn dibynnu ar amgylchiadau eraill – gweler rheoliad 5) yn ddisgybl a eithrir:

- a. plentyn sydd â chynllun datblygu unigol lle mae'r ysgol wedi'i henwi at ddibenion derbyn o dan adran 48 o Ddeddf 2018, ac sy'n cael ei dderbyn i'r ysgol y tu allan i gylch derbyn arferol;
- b. plentyn sydd fel arfer yn cael ei addysgu mewn uned o fewn yr ysgol sydd wedi'i threfnu'n arbennig i ddarparu addysg i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig (os yw'r system AAA yn dal i fod yn berthnasol iddynt) neu anghenion dysgu ychwanegol (os yw'r system ADY yn berthnasol iddynt), ond sy'n treulio lleiafrif o'u hamser yn y dosbarth babanod.

4.8 Ar hyn o bryd mae darpariaeth debyg i'r un a ddisgrifir yn is-baragraff (a) uchod mewn perthynas â'r system AAA, a gedwir gan y diwygiadau (oherwydd bydd y system AAA yn parhau i fod yn gymwys i rai plant o 1 Medi 2021).

Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) 2015

4.9 Mae Deddf 2018 yn diwygio adran 337 o Ddeddf Addysg 1996 i ddiffinio ysgolion arbennig yng Nghymru a Lloegr ar wahân, gan greu dwy is-adran. Caiff y Rheoliadau hyn eu diwygio fel bod croesgyfeiriad at adran 337 yn gyfeiriad at adran 337 yn ei chyfanrwydd ac nid adran 337(1) yn unig, a fydd dim ond yn ymdrin â threfniadau phan fo ysgol yn Lloegr yn ysgol arbennig.

Rheoliadau Addysg (Arolygu Addysg Feithrin) (Cymru) 2015

- 4.10 Caiff y Rheoliadau hyn eu diwygio o ganlyniad i ddiddymu adran 347 o Ddeddf Addysg 1996 (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas ar gyfer derbyn plant â datganiadau o anghenion addysgol arbennig). Ar hyn o bryd, pan fydd addysg feithrin mewn ysgol annibynnol a gymeradwywyd o dan adran 347 yn cael ei harolygu, mae'n ofynnol o dan y Rheoliadau i'r adroddiad arolygu gael ei anfon i'r awdurdod lleol sy'n talu'r ffioedd mewn perthynas â phresenoldeb disgybl cofrestredig. Effaith y diwygiad yw pe bai ysgol annibynnol yn cael ei chymeradwyo hyd at ddiddymu adran 347 ar 1 Medi 2021, a bod awdurdod lleol yn talu'r ffioedd am ddisgybl cofrestredig sy'n dal i fod o dan y system AAA, rhaid anfon copi o'r adroddiad i'r awdurdod lleol.
- 4.11 Mae'r diwygiad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiad arolygu sy'n ymwneud ag addysg feithrin mewn ysgol annibynnol gael ei anfon i'r awdurdod lleol sy'n sicrhau lle disgybl cofrestredig yn yr ysgol o dan Ran 2 o Ddeddf 2018.

Dirymiadau canlyniadol

- 4.12 Mae rheoliad 7 yn dirymu, o ran Cymru, rheoliadau a wnaed, neu sy'n cael effaith fel pe baent wedi eu gwneud, o dan adrannau 342 neu 347 o Ddeddf Addysg 1996, a fydd, yn dilyn diwygio a diddymu (yn y drefn honno) yr

adrannau hynny, mewn perthynas â Chymru, dim ond yn cynnwys darpariaeth afraid.

5. Ymgynghori

- 5.1 Nid oes ymgynghoriad ffurfiol wedi'i gynnal gan mai dim ond diwygiadau technegol canlyniadol y mae'r rheoliadau'n eu gwneud.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol

- 6.1 Ni pharatowyd asesiad effaith rheoleiddiol mewn perthynas â'r rheoliadau diwygio canlyniadol hyn gan eu bod yn gwneud diwygiadau technegol i statud ac nad ydynt yn gosod nac yn lleihau costau i fusnesau, elusennau na chyrrff gwirfoddol nac i'r sector cyhoeddus.